OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 266 (Cy.29)

# GALLUEDD MEDDYLIOL, CYMRU

## Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Penodi Cynrychiolydd Person Perthnasol) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Chwefror 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Chwefror 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 35(2) a (3), 65(1) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a pharagraffau 138(1), 142 i 144, 145, 147, 148, 165, 166 a 182(6) a (7) o Atodlen A1 iddi (**1**) a chan adrannau 12 a 204 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**).

## RHAN 1

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Penodi Cynrychiolydd Person Perthnasol) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "asesydd lles pennaf" ("*best interests assessor*") yw person a ddetholwyd i wneud asesiad lles pennaf o dan baragraff 38 o Atodlen A1 i'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Galluedd Meddyliol 2005;

ystyr "rhoddai" ("*donee*") yw person y rhoddwyd iddo atwrneiaeth arhosol neu atwrneiaeth barhaus gofrestredig gan y person perthnasol.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae "corff goruchwylio" ("*supervisory body*") yn cynnwys Bwrdd Iechyd Lleol sy'n arfer swyddogaethau goruchwylio yn unol â rheoliad 3.

(**1**) 2005 p.9. Mewnosodwyd Atodlen A1 gan adran 50(5) o Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 p.12.
(**2**) 2006 (p.42).

# RHAN 2

## Swyddogaethau goruchwylio

### Swyddogaethau goruchwylio sy'n arferadwy gan Fyrddau Iechyd Lleol

**3.**—(1) Bydd pob Bwrdd Iechyd Lleol yn arfer swyddogaethau goruchwylio—

(a) mewn perthynas ag unrhyw berson sydd â lle ganddo mewn ysbyty neu sy'n debygol o gael lle mewn ysbyty (p'un a ydynt yn ysbytai'r GIG neu'n ysbytai annibynnol) yn ei ardal er mwyn derbyn gofal perthnasol neu driniaeth berthnasol(**3**); a

(b) os bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn comisiynu gofal perthnasol neu driniaeth berthnasol i berson mewn ysbyty (p'un ai ysbyty'r GIG neu ysbyty annibynnol) yn Lloegr mewn perthynas â'r ysbyty hwnnw.

(2) Os bydd Gweinidogion Cymru yn comisiynu gofal perthnasol neu driniaeth berthnasol i unrhyw berson sydd â lle ganddo mewn ysbyty neu sy'n debygol o gael lle mewn ysbyty (p'un ai ysbyty'r GIG neu ysbyty annibynnol) yn Lloegr y corff goruchwylio fydd y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer yr ardal y mae'r person fel arfer yn byw ynddi.

(3) Yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru, mae modd i swyddogaethau goruchwylio sy'n arferadwy gan Fwrdd Iechyd Lleol, drwy drefniant â'r Bwrdd hwnnw, ac yn ddarostyngedig i'r fath gyfyngiadau ac amodau ag y tybia'r Bwrdd hwnnw eu bod yn briodol, gael eu harfer—

(a) ar ran y Bwrdd hwnnw gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog o'r Bwrdd;

(b) ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol arall;

(4) Mae i “swyddogaethau goruchwylio” yr un ystyr ag sydd i “*supervisory functions*” ym mharagraff 165(3) o Atodlen A1 i'r Ddeddf.

# RHAN 3

## Penodi — cyffredinol

### Y weithdrefn benodi

**4.**—(1) Mae dethol person i'w benodi yn gynrychiolydd i ddigwydd yn unol â Rhan 4.

(2) Mae penodi person yn gynrychiolydd i ddigwydd yn unol â Rhan 5.

### Cychwyn y weithdrefn benodi

**5.** Rhaid i'r weithdrefn ar gyfer penodi cynrychiolydd ddechrau—

(a) cyn gynted ag y bydd asesydd lles pennaf wedi ei ddethol gan y corff goruchwylio(**4**) at ddibenion cais am awdurdodiad safonol(**5**); neu

(b) cyn gynted ag y bo penodiad cynrychiolydd person perthnasol yn terfynu, neu i'w derfynu yn unol â rheoliad 14, a bod y person perthnasol yn parhau i fod yn ddarostyngedig i awdurdodiad safonol.

---

(**3**) Diffinnir “relevant care or treatment” ym mharagraff 7 o Atodlen A1 i'r Ddeddf.

(**4**) Penderfynir p'un yw'r corff goruchwylio yn unol â pharagraffau 128, 180, 181 a 182 o Atodlen A1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (“y Ddeddf”).

(**5**) Caiff “*standard authorisation*” ei ddiffinio ym mharagraff 8 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

**Cymhwystra person i fod yn gynrychiolydd**

**6.**—(1) Mae person yn gymwys i'w benodi yn gynrychiolydd—

(a) os yw'n 18 oed neu drosodd;

(b) os yw'n abl i gadw mewn cysylltiad â'r person perthnasol(**6**);

(c) onid yw wedi'i rwystro gan afiechyd rhag cyflawni swyddogaeth cynrychiolydd;

(ch) os yw'n fodlon bod yn gynrychiolydd i'r person perthnasol;

(d) os nad oes ganddo fuddiant ariannol yn y cartref gofal(**7**) neu yn yr ysbyty annibynnol(**8**) lle mae'r person perthnasol yn cael ei gadw, neu lle mae i'w gadw;

(dd) onid yw'n berthynas i berson sydd â buddiant ariannol yn y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol lle mae'r person perthnasol yn cael ei gadw, neu lle mae i'w gadw;

(e) onid yw'n darparu gwasanaethau i'r cartref gofal lle mae'r person perthnasol yn cael ei gadw, neu lle mae i'w gadw, neu onid yw'n cael ei gyflogi i weithio yno;

(f) onid yw'n cael ei gyflogi i weithio yn yr ysbyty(**9**) lle mae'r person perthnasol yn cael ei gadw, neu lle mae i'w gadw, mewn swyddogaeth sy'n gysylltiedig ag achos y person perthnasol, neu a allai fod yn gysylltiedig â'r achos hwnnw; ac

(ff) onid yw'n cael ei gyflogi i weithio ar gorff goruchwylio'r person perthnasol mewn swyddogaeth sy'n gysylltiedig ag achos y person perthnasol, neu a allai fod yn gysylltiedig â'r achos hwnnw.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "perthynas" ("*relative*") yw:

(a) tad, mam, llystad, llysfam, mab, merch, llysfab, llysferch, nain (mam-gu), taid (tad-cu), ŵyr neu wyres y person hwnnw, neu o briod, cyn briod, partner sifil neu gyn bartner sifil y person hwnnw; neu

(b) brawd, chwaer, ewythr, modryb, nith, nai, neu gefnder cyfan (p'un ai o waed cyfan neu hanner gwaed neu drwy briodas neu bartneriaeth sifil) y person hwnnw neu briod, cyn briod, partner sifil neu gyn bartner sifil y person hwnnw.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) mae "priod" ("*spouse*") neu "partner sifil" ("*civil partner*") yn cynnwys person nad yw'n briod â pherson nac mewn partneriaeth sifil â pherson ond sy'n byw gyda'r person hwnnw fel petai mewn perthynas o'r fath, a

(b) mae gan berson fuddiant ariannol mewn cartref gofal neu mewn ysbyty annibynnol os yw'r person hwnnw'n bartner, yn gyfarwyddwr, yn ddeiliad swydd arall neu'n brif gyfranddaliwr y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol sydd wedi gwneud cais am awdurdodiad safonol.

(c) ystyr "prif gyfranddaliwr" ("*major shareholder*") yw—

(i) unrhyw berson sy'n dal degfed ran neu fwy o'r cyfranddaliadau sydd wedi eu dyroddi yn y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol, os yw'r cartref gofal neu'r ysbyty yn gwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, a

(ii) ym mhob achos arall, unrhyw un o berchnogion y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol.

(**6**) Caiff "*relevant person*" ei ddiffinio ym mharagraff 7 o Atodlen A1 i'r Ddeddf.
(**7**) Caiff "*care home*" ei ddiffinio ym mharagraff 178 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.
(**8**) Diffinnir "*independent hospital*" ym mharagraff 175(3) o Atodlen A1 i'r Ddeddf.
(**9**) Caiff "*ysbyty*" ei ddiffinio ym mharagraff 175(1) o Atodlen A1 i'r Ddeddf.

# RHAN 4

## Dethol

### Dethol gan y person perthnasol

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo gan y person perthnasol alluedd o ran y cwestiwn pwy ddylai ei gynrychiolydd fod.

(2) Caiff y person perthnasol ddethol person ar gyfer ei benodi i fod yn gynrychiolydd iddo.

(3) Os yw'r person perthnasol yn cael dethol person yn unol â pharagraff (2) ond nad yw'n gwneud hynny, mae rheoliad 10 yn gymwys.

### Dethol gan roddai neu ddirprwy

**8.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os nad oes gan y person perthnasol alluedd o ran y cwestiwn pwy ddylai ei gynrychiolydd fod.

(2) Pan fo'r canlynol yn wir—

(a) bod gan y person perthnasol roddai neu ddirprwy(**10**), a

(b) ei bod o fewn awdurdod y rhoddai neu'r dirprwy i wneud hynny,

caiff y rhoddai neu'r dirprwy ddethol person i'w benodi yn gynrychiolydd.

(3) Os yw rhoddai neu ddirprwy yn cael dethol person yn unol â pharagraff (2) ond nad yw'n gwneud hynny, mae rheoliad 10 yn gymwys.

### Cymeradwyo gan yr asesydd lles pennaf neu'r corff goruchwylio

**9.**—(1) Rhaid i berson a ddetholir yn unol â rheoliadau 7(2) neu 8(2) gael ei gymeradwyo gan yr asesydd lles pennaf neu gan y corff goruchwylio.

(2) Os nad yw'r asesydd lles pennaf neu'r corff goruchwylio yn cymeradwyo person a ddetholir—

(a) caiff gymeradwyo person arall a ddetholir yn unol â rheoliadau 7(2) neu 8(2); neu

(b) caiff yr asesydd lles pennaf ddethol person yn unol â rheoliad 10.

### Dethol gan yr asesydd lles pennaf

**10.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys——

(a) pan nad oes person wedi ei ddethol i'w benodi yn gynrychiolydd yn unol â rheoliadau 7(2) neu 8(2), neu

(b) pan fo'r asesydd lles pennaf neu'r corff goruchwylio heb gymeradwyo person yn unol â rheoliad 9.

(2) Caiff yr asesydd lles pennaf ddethol person i fod yn gynrychiolydd i'r person perthnasol.

(3) Os nad yw'r asesydd lles pennaf yn gallu dethol person i'w benodi'n gynrychiolydd, mae rheoliad 11 yn gymwys.

### Dethol gan y corff goruchwylio

**11.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan nad oes person wedi'i ddethol yn unol â rheoliadau 7(2), 8(2) neu 10(2).

(2) Rhaid i'r corff goruchwylio ddethol person i'w benodi yn gynrychiolydd i'r person perthnasol.

(**10**) Caiff "*deputy*" ei ddiffinio yn adran 64(1) o'r Ddeddf.

(3) Os bydd person a ddetholir yn unol â pharagraff (2) yn gweithredu mewn swyddogaeth broffesiynol

(a) rhaid i'r person hwnnw fod â'r hyfforddiant a'r profiad priodol, a

(b) rhaid bod y corff goruchwylio wedi'i fodloni bod y canlynol ar gael mewn perthynas â'r person hwnnw—

(i) tystysgrif cofnod troseddol fanwl a ddyroddir yn unol ag adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(**11**); neu

(ii) os nad yw'r diben y mae'r dystysgrif yn ofynnol ati yn un a ragnodir o dan is-adran (2) o'r adran honno, tystysgrif cofnod troseddol a ddyroddir yn unol ag adran 113A o'r Ddeddf honno.

(4) At ddibenion paragraff (3), person sy'n gweithredu mewn swyddogaeth broffesiynol yw person a gafodd ei ddethol gan yr asesydd lles pennaf neu gan y corff goruchwylio a hwnnw'n berson nad yw'n aelod o'r teulu, yn gyfaill nac yn ofalwr i'r person perthnasol.

# RHAN 5

## Penodi cynrychiolwyr

### Penodi cynrychiolydd

**12.** Bydd corff goruchwylio yn penodi mewn ysgrifen unrhyw berson a ddetholir yn unol â Rhan 4 yn gynrychiolydd i'r person perthnasol.

### Gofynion ffurfiol penodi cynrychiolydd

**13.** Rhaid hysbysu'r personau canlynol o benodiad cynrychiolydd—

(a) y person perthnasol;

(b) yr awdurdod rheoli perthnasol;

(c) unrhyw roddai neu ddirprwy i'r person perthnasol;

(ch) unrhyw eiriolwr annibynnol o ran galluedd meddyliol(**12**) a benodwyd yn unol â'r Ddeddf; a

(d) unrhyw berson y bydd yr asesydd lles pennaf wedi ymgynghori ag ef.

# RHAN 6

### Terfynu penodiad cynrychiolydd

**14.** Bydd person yn peidio â bod yn gynrychiolydd—

(a) os bydd farw;

(b) os bydd yn hysbysu'r corff goruchwylio nad yw mwyach yn fodlon parhau â'r swyddogaeth;

(c) os daw cyfnod ei benodiad i ben;

(**11**) 1997 p.50. Mae adrannau 113A i 113D wedi'u mewnosod gan adran 163 o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.14).

(**12**) Caiff "*independent mental capacity advocate*" ei ddiffinio yn adran 64(1) o'r Ddeddf.

(ch) os yw cynrychiolydd wedi'i benodi ar ôl cael ei ddethol yn unol â rheoliad 7(2) a bod y person perthnasol yn hysbysu'r corff goruchwylio ei fod yn gwrthwynebu i'r person hwnnw barhau i fod yn gynrychiolydd iddo;

(d) os yw cynrychiolydd wedi'i benodi ar ôl cael ei ddethol yn unol â rheoliad 8(2) a bod y rhoddai neu'r dirprwy yn gwrthwynebu i'r person hwnnw barhau i fod yn gynrychiolydd i'r person perthnasol;

(dd) os bydd y corff goruchwylio yn terfynu'r penodiad am ei fod wedi'i fodloni nad yw'r cynrychiolydd yn cadw cyswllt digonol â'r person perthnasol i'w gefnogi ac i'w gynrychioli;

(e) os bydd y corff goruchwylio yn terfynu'r penodiad am ei fod wedi'i fodloni nad yw'r person yn gymwys mwyach at ddibenion 6(1) i fod yn gynrychiolydd; neu

(f) os bydd y corff goruchwylio yn terfynu'r penodiad am ei fod wedi'i fodloni nad yw'r person yn gweithredu er lles pennaf y person perthnasol.

**Monitro cynrychiolwyr**

**15.** Rhaid i'r awdurdod rheoli roi gwybod i'r corff goruchwylio os daw yn ymwybodol nad yw'r cynrychiolydd yn gweithredu er lles pennaf y person perthnasol neu os nad yw wedi cadw cyswllt rheolaidd ag ef.

**Gofynion ffurfiol terfynu penodiad cynrychiolydd**

**16.**—(1) Os yw penodiad cynrychiolydd i'w derfynu yn unol â pharagraffau (b) i (f) o reoliad 14, rhaid i'r corff goruchwylio hysbysu'r person hwnnw fod ei benodiad i'w derfynu a rhaid iddo roi rhesymau pam y mae'r penodiad i'w derfynu.

(2) Os yw penodiad cynrychiolydd i'w derfynu'n unol â rheoliad 14, rhaid i'r corff goruchwylio hysbysu—

(a) y person perthnasol;

(b) yr awdurdod rheoli;

(c) unrhyw roddai neu ddirprwy i'r person perthnasol;

(ch) unrhyw eiriolwr annibynnol o ran galluedd meddyliol a benodir yn unol â'r Ddeddf; a

(d) unrhyw berson yr ymgynghorir ag ef gan yr asesydd lles pennaf.

# RHAN 7

## Cynrychiolwyr — amrywiol

**Talu i gynrychiolwyr**

**17.** Caiff corff goruchwylio wneud taliadau i unrhyw berson, neu mewn perthynas ag unrhyw berson, a benodwyd yn unol â rheoliad 12 ac sy'n arfer swyddogaethau fel cynrychiolydd y person perthnasol.

# RHAN 8

**Diwygio Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007**

**18.**—(1) Mae Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007(**13**) wedi'u diwygio'n unol â'r paragraff canlynol.

(2) Yn lle'r geiriau "adrannau 37, 38 a 39 o'r Ddeddf" yn rheoliad 2(2) (dehongli), rhodder y geiriau canlynol—

"adrannau 37, 38, 39, 39A, 39C neu 39D o'r Ddeddf".

**19.** Yn lle'r geiriau "adrannau 37, 38 neu 39 o'r Ddeddf" yn rheoliad 5(1) (penodi eiriolwyr annibynnol o ran galluedd meddyliol) rhodder y geiriau canlynol—

"adrannau 37, 38, 39, 39A, 39C neu 39D o'r Ddeddf".

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

11 Chwefror 2009

(**13**) O..S. 2007/852 (Cy.77).

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

**1.** Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (“y Ddeddf”) yn darparu y gellir yn gyfreithlon amddifadu pobl o'u rhyddid os nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio i drefniadau a gynigir iddynt ar gyfer eu gofal neu driniaeth mewn cartrefi gofal ac ysbytai ar yr amod bod hynny'n cael ei awdurdodi'n unol â'r Ddeddf. Y cyrff goruchwylio sydd i roi'r awdurdodiad. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaethau goruchwylio mewn perthynas ag ysbytai i Fyrddau Iechyd Lleol.

**2.** Os rhoddir awdurdodiad i amddifadu unrhyw berson o'i ryddid, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i'r corff goruchwylio benodi cynrychiolydd ar gyfer y person hwnnw. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer dethol a phenodi cynrychiolwyr.

**3.** Mae'r Rheoliadau hyn—

(a) yn rhoi swyddogaethau goruchwylio mewn perthynas ag ysbytai i Fyrddau Iechyd Lleol ac yn darparu ar gyfer trefniadau cydweithio (rheoliad 3);

(b) yn gwneud darpariaethau ynghylch yr amgylchiadau pan fydd person yn gymwys i fod yn gynrychiolydd (rheoliad 6);

(c) yn darparu i berson perthnasol ddethol person yn gynrychiolydd iddo (rheoliad 7);

(ch) yn darparu os oes gan berson perthnasol roddai i Atwrneiaeth Arhosol neu os yw'r llys wedi penodi dirprwy, caiff y rhoddai hwnnw neu'r dirprwy hwnnw ddethol cynrychiolydd ar yr amod bod hynny o fewn cwmpas ei awdurdod (rheoliad 8);

(d) yn darparu i asesydd lles pennaf i gymeradwyo cynrychiolydd a ddetholir gan y person perthnasol, y rhoddai neu'r dirprwy neu ddethol cynrychiolydd ei hunan (rheoliadau 9 a 10);

(dd) yn darparu i'r corff goruchwylio ddethol cynrychiolydd os na ellir dethol un drwy ddulliau eraill (rheoliad 11);

(e) yn darparu i'r corff goruchwylio benodi cynrychiolydd a ddetholwyd ac i hysbysiad o'r penodiad gael ei roi i'r personau sydd â buddiant (rheoliadau 12 a 13);

(f) yn darparu ar gyfer terfynu penodiad y cynrychiolydd (rheoliad 14);

(ff) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod rheoli hysbysu'r corff goruchwylio os nad yw'r cynrychiolydd yn gweithredu er lles pennaf y person perthnasol neu os nad yw'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd (rheoliad 15);

(g) yn darparu i gynrychiolwyr gael eu talu (rheoliad 17).

**4.** Darpariaethau trosiannol yw rheoliadau 18 a 19 sy'n diwygio Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/852 (Cy.77)). Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y bydd Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol hefyd am wneud trefniadau i Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol fod ar gael i weithredu pan fo'r person perthnasol, neu pan fo'n bosibl ei fod, yn ddarostyngedig i awdurdodiad safonol ac nad oes gan y person hwnnw unrhyw berson arall y gellir ymgynghori ag ef ynglyn â'r hyn sydd er ei les pennaf (rheoliadau 18 a 19).

**5.** Ni chafodd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ei lunio ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw effaith arwyddocaol ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.